**Papur ar gyfer Cyngor Adnewyddu'r Economi**

**Diweddariad ynghylch y diwydiant dur**

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn wedi'i baratoi er mwyn cynorthwyo eitem drafod ynglŷn â'r diwydiant dur yng Nghymru. Mae'r papur yn egluro'r cefndir a'r modd y cafodd Tasglu ei sefydlu'n dilyn y cyhoeddiadau diweddar gan Tata Steel.

## Cefndir

Mae'r diwydiant dur yn un o gonglfeini ein sector gweithgynhyrchu. Mae'r prif weithfeydd dur yn ysgogi cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol, cadwyni cyflenwi amrywiol yn ogystal ag ymchwil a datblygu ac arloesedd.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y diwydiant dur yn y DU yn wynebu un o'r trobwyntiau mwyaf yn ei hanes. Mae'r argyfwng presennol wedi bod yn datblygu dros nifer o flynyddoedd ac mae'n dilyn gostyngiadau parhaus ym mhris dur o Ewrop o ganlyniad i fewnforion rhad, yn enwedig o Tsieina ond erbyn hyn o wledydd eraill hefyd gan gynnwys Rwsia. Mae cynnyrch dur stribed a gaiff ei fewnforio i'r Undeb Ewropeaidd o Tsieina wedi cynyddu bron 50% dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hynny'n cael ei waethygu gan gostau ynni uchel yn y DU o gymharu ag Ewrop, a'r ffaith bod y bunt yn gryf. Y canlyniad yw bod pris dur bellach yn llai na hanner ei bris yn 2011, ac yn llawer llai na'i bris isaf blaenorol yn 2009.

Rydym ni fel Llywodraeth wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant dur ers llawer o flynyddoedd, ac rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Rydym wedi bod yn mynegi pryderon ers 2011 am effaith prisiau ynni ar y busnesau sy'n gwneud y defnydd mwyaf o ynni. Rydym wedi sôn wrth Lywodraeth y DU am bryderon cynhyrchwyr dur yng Nghymru am yr holl gynnyrch dur sy'n cael ei fewnforio, a'i ansawdd hefyd mewn rhai achosion. Rydym yn cefnogi ymchwiliadau diweddar gan yr Undeb Ewropeaidd ynghylch mesurau i atal rhai mathau o gynnyrch dur, gan gynnwys y rhai sy'n dod o Tsieina, rhag cael eu dympio yn yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu cynigion sy'n seiliedig ar ein hysgogiadau ein hunain, sy'n amrywio o waith ymchwil a datblygu, sgiliau a hyfforddiant, cymorth i warchod yr amgylchedd, ac ardrethi busnes. O ran ardrethi busnes, rydym yn edrych ar yr opsiynau'n ofalus er mwyn cynorthwyo'r diwydiant, gan ystyried lleihau effaith offer a pheiriannau ar filiau ardrethi busnes. Mae'r broses o asesu offer a pheiriannau wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y dull prisio ehangach a ddefnyddir, ac mae'n arwain at heriau sylweddol wrth geisio cyflwyno "gostyngiad cyffredinol" yng nghyswllt offer a pheiriannau. Nid gwneud newidiadau i offer a pheiriannau yw'r unig gam y gellir ei gymryd i gynorthwyo'r sector drwy ardrethi busnes. Rydym hefyd yn trafod y dull cyffredinol o brisio â'r Swyddfa Brisio, oherwydd mae'n bwysig bod y dull o brisio'n adlewyrchu gwerthoedd rhent a'r amgylchiadau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Mae gan gaffael rôl allweddol i'w chwarae hefyd. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru a gyhoeddwyd yn 2012 yn cefnogi egwyddorion y Siarter Dur Prydeinig yn llwyr. Mae ein polisïau caffael blaengar sydd eisoes ar waith yn ategu nodau'r Siarter. Er enghraifft, rydym ar hyn o bryd yn adolygu'r dogfennau contract enghreifftiol ar gyfer cyflawni prosiectau trafnidiaeth mawr i sicrhau bod y safon yn cael ei hystyried.

**Datblygiadau diweddar**

Ar 18 Ionawr cyhoeddodd Tata Steel UK Limited gynigion i arbed costau, a allai arwain at golli 1,050 o swyddi, ac roedd 750 o'r swyddi hynny yn ei fusnes Strip Products UK ym Mhort Talbot. Nododd y cwmni fod Trostre hefyd yn lleoliad a allai wynebu colli rhai swyddi, ac mae'r sefyllfa yn Llanwern yn dod yn fwy clir erbyn hyn.

Yn ei ddatganiad, galwodd y cwmni ar i'r Comisiwn Ewropeaidd ymateb yn gynt i fewnforion annheg ac i weithredu'n fwy cadarn. Er bod y cwmni yn croesawu'r cynnydd a wnaed ynghylch costau ynni yn y DU, dywedodd eto fod yn rhaid i'r Llywodraeth weithredu ar frys i sicrhau bod y DU yn fwy cystadleuol o safbwynt y sector dur.

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gref â Tata, sydd wedi'i datblygu dros flynyddoedd lawer. Rydym wedi cynorthwyo Tata â gwaith ymchwil a datblygu arloesol er mwyn datblygu cynnyrch newydd arloesol ac arbenigol, sy'n cynnwys cymorth drwy SPECIFIC (Y Ganolfan Beirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Arloesi mewn Haenau Diwydiannol Gweithredol). Rydym hefyd wedi cynorthwyo Tata drwy gynnig ymyriadau wedi'u teilwra o ran hyfforddiant a sgiliau, sy'n cynnwys ymyriadau megis ProAct a ReAct a gaiff eu cydnabod yn arfer gorau gan ddiwydiant ac undebau ar lefel y DU.

Yn dilyn y cyhoeddiad ar 18 Ionawr, ein blaenoriaeth gyntaf oedd symud yn gyflym a gweithredu er mwyn paratoi cymorth ar gyfer y sawl yr effeithir arnynt.

Bu i ni ysgrifennu ar unwaith at Ganghellor y Trysorlys ynghylch ein cynnig i greu Ardal Fenter ychwanegol yng Nghymru. Byddai Ardal Fenter sy'n cynnwys y safle ym Mhort Talbot nid yn unig yn anfon neges bwysig i'r diwydiant, ond byddai hefyd yn creu amgylchedd o dwf lle gallai busnesau a diwydiannau eraill ffynnu. Fodd bynnag, er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl, byddai angen i Ardal Fenter o'r fath gael y pecyn cyfan o ysgogiadau polisi, gan gynnwys Lwfansau Cyfalaf Uwch. Gan mai mater i Lywodraeth y DU yw Lwfansau Cyfalaf Uwch, rydym wedi gofyn am ymateb buan gan y Canghellor ynghylch a fyddai Llywodraeth y DU yn cytuno â hynny.

Yn ogystal, aethom ati ar unwaith i alw Tasglu Tata ynghyd, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 20 Ionawr. Cafwyd presenoldeb da gan gynrychiolwyr o Tata, Unite, undeb Community a phwyllgorau sy'n cynrychioli amryw undebau, yn ogystal â chynrychiolwyr o amryw sefydliadau a all ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn a thros y misoedd nesaf. Byddant yn bwyntiau cyswllt ar gyfer eu sectorau. Mae rhestr o'r sefydliadau sy'n mynychu'r Tasglu ynghlwm wrth y papur hwn.

Prif ffocws y Tasglu yw gwneud popeth o fewn ein gallu i gynorthwyo'r gweithwyr yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y sefyllfa'n effeithio hefyd ar bobl eraill heblaw'r gweithwyr a allai gael eu diswyddo. Mae'n debygol y bydd y sefyllfa'n effeithio ar fusnesau yn y prif gadwyni cyflenwi, yn ogystal â busnesau llai o faint sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau lleol. Felly bydd y Tasglu yn ystyried beth y gellir ei wneud i'w cynorthwyo hwythau hefyd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud yn ei flaen ar unwaith ac ochr yn ochr â'n gwaith i gynorthwyo'r gweithwyr a gaiff eu diswyddo.

Er bod yr ymgynghoriad ffurfiol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, nododd y Tasglu ei bod yn bwysig gwneud gwaith paratoi. Roedd aelodau'r Tasglu yn gytûn ynghylch eu diben cyffredin, sef sicrhau y byddai popeth yn cael ei wneud i gynorthwyo'r gweithwyr yr effeithir arnynt, ac roeddent yn croesawu'r ffaith bod y Tasglu wedi'i alw ynghyd mor sydyn.

Cafodd y Tasglu y wybodaeth ddiweddaraf gan Tata a chan yr undebau llafur a oedd yn bresennol. Yna bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar ddwy eitem wahanol, sef cymorth i weithwyr gan gynnwys hyfforddiant a sgiliau, a chymorth i fusnesau a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Bu'r Tasglu yn ystyried y ffactorau allweddol o ran llwyddiant a ddeilliodd o Dasglu Murco, a bu'n rhannu profiad sylweddol y sawl a oedd o gwmpas y bwrdd. Cytunwyd y dylid ffurfio pedair ffrwd waith:

**Hyfforddiant a sgiliau** – Bydd y ffrwd waith hon yn ystyried y cymorth y mae ei angen ar y gweithwyr a allai gael eu diswyddo yn dilyn y broses ymgynghori. Bydd y ffrwd waith hon yn cynnwys cynrychiolwyr o Tata, yr undebau llafur, Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a Choleg Castell-nedd Port Talbot, a bydd yn cael ei chynorthwyo gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd sefydliadau eraill yn cael eu gwahodd wrth i'r gwaith ddatblygu.

**Cymorth busnes a chadwyni cyflenwi** – Bydd y ffrwd waith hon yn archwilio cadwyni cyflenwi'r cwmni ac yn llunio'r cynnig ynghylch Ardal Fenter ar gyfer yr ardal. Caiff y ffrwd waith hon ei chynorthwyo gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru. Caiff sefydliadau eu gwahodd i gynorthwyo'r gwaith hwn wrth i'r ffrwd waith ddatblygu.

**Iechyd** – Bydd y ffrwd waith hon yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth am y cymorth personol sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd, a bydd yn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth ar gael a'u bod yn hawdd i'w deall. Bydd y ffrwd waith hon yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Tata a'r undebau llafur. Caiff sefydliadau eraill eu gwahodd i ymuno fel y bo'n briodol.

**Caffael** – Bydd y ffrwd waith hon yn archwilio'r hyn y gellir ei wneud i gynyddu nifer y contractau y mae gweithgynhyrchwyr UK Steel yn eu hennill mewn cystadleuaeth deg ac agored. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu gan Lywodraeth y DU ynghylch caffael rheilffyrdd, datblygiadau mawr i seilwaith a datblygiadau o safbwynt y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd y Tasglu yn cyfarfod nesaf ymhen pythefnos, a bydd y ffrydiau gwaith yn cwrdd cyn hynny. Caiff y blaengynllun ar gyfer cyfarfodydd y Tasglu llawn ei lunio yng ngoleuni'r diweddariadau gan y ffrydiau gwaith.

Yn dilyn cyfarfod y Tasglu, rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am ddiweddariad ynghylch yr amserlen ar gyfer pryd y gallai'r sector gael taliadau iawndal, y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch yr hyn sy'n cael ei wneud am fesurau atal dympio dur, a ph'un a allai cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd megis y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio ddarparu cymorth priodol i unrhyw weithwyr sy'n cael eu diswyddo. Rydym hefyd wedi estyn gwahoddiad i Weinidog Llywodraeth y DU dros Fusnesau Bach, Diwydiant a Menter, y Gwir Anrhydeddus Anna Soubry AS, fynychu un o gyfarfodydd y Tasglu yn y dyfodol.

**Y sefydliadau a fynychodd gyfarfod Tasglu Tata**

**20 Ionawr 2016**

Tata Steel

Unite

Undeb Community

Pwyllgorau sy'n cynrychioli amryw undebau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

UK Steel Enterprise

Cydffederasiwn Diwydiant Prydain

Yr Adran dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau

Swyddfa Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Industry Wales

Gyrfa Cymru

Y Ganolfan Byd Gwaith

Cadeirydd Tasglu Murco

Coleg Castell-nedd Port Talbot